Y Tad Joseph Damien: 1840-1889

Ffrind y gwahangleifion

Dewrder / cryfder / ffyddlondeb

Ydych chi'n cofio'r hanes am Iesu yn gwella'r gwahangleifion? Roedd deg ohonyn nhw ac ar ôl iddyn nhw gael eu gwella, dim ond un ohonyn nhw ddaeth yn ôl i ddiolch. Afiechyd creulon iawn ydi'r gwahanglwyf. Mae'n ymosod ar y croen. Yn adeg Iesu Grist roedd pobl yn taflu cerrig at y gwahangleifion. Byddai'r gwahangleifion yn cael eu herlid o'u cartrefi. Roedden nhw yn mynd i fyw efo'i gilydd mewn rhan o'r pentref neu'r ddinas neu hyd yn oed ar ynys bell. Dyma stori am offeiriad a aeth i fyw at griw o wahangleifion ar Ynys Molokai.

Galwodd yr Esgob yr offeiriaid ynghyd. "Rwyf yn poeni am y bobl sy'n byw ar Ynys Molokai. Fel y gwyddoch, mae'r gwahangleifion yn byw gyda'i gilydd ar yr ynys hon. Rwyf angen i un ohonoch fynd i weithio ar yr ynys. Ond cofiwch, efallai na fyddwch chi'n dod yn ôl i'r tir mawr."

"Sut hynny?" meddai un o'r offeiriaid.

"Fel y gwyddoch, mae'r ynys yn llawn o wahangleifion. Y peryg ydi y bydd pwy bynnag sy'n mynd yno yn mynd i ddal yr afiechyd creulon," meddai'r Esgob.

"Mi rydw i am fynd," meddai Joseph Damien.

Edrychodd pawb arno. Roedd pob un o'r offeiriaid yn credu ei fod yn ddyn dewr iawn.

Hwyliodd y Tad Damien i Ynys Molokai. Yno y bu'n gweithio'n ddiwyd am ddeuddeng mlynedd. Gofalai am y cleifion. Roedd yn eu bwydo ac yn iacháu eu clwyfau. Bob gyda'r nos byddai'n sôn wrthyn nhw am Iesu Grist. Roedden nhw wrth eu bodd yn clywed yr hanesion amdano. Y stori orau un oedd honno yn sôn am Iesu yn iacháu'r gwahangleifion.

"Gawn ni'r stori yna eto," oedd yr un gân bob nos.

Roedd y Tad Damien yn teimlo ei fod yn un â'r gwahangleifion. Roedd yn hapus iawn yn eu plith.

Un bore, wrth godi o'r gwely, teimlodd y Tad Damien ryw deimlad rhyfedd yn ei droed. Aeth i weld un o'r meddygon oedd yn gweithio ar yr ynys.

"Mae'n wir ddrwg gen i," meddai'r meddyg yn dosturiol, "mae arna i ofn eich bod yn dioddef o'r gwahanglwyf."

Daliodd i weithio'n galed ymhlith ei gyd-gleifion.

"Mae rhai pobl yn tosturio wrthyf," meddai wrth ei ffrind, "ond mi rydw i'n hapus gan fy mod yn un ohonyn nhw bellach."

Roedd y Tad Damien yn ddyn hapus am ei fod yn gallu helpu Duw ar Ynys Molokai. Roedd wedi caru'r cleifion i'r eithaf. Am dair blynedd y bu'n dioddef o'r afiechyd. Bu farw ymhlith ei bobl a chafodd ei gladdu o dan y goeden roedd yn arfer eistedd oddi tani pan oedd yn ddyn iach.

"Safasant bellter oddi wrtho, a chodi eu lleisiau arno: '"Iesu, feistr, trugarha wrthym.'"

Luc 17:12-13

O Dduw,
mae yna sawl math o afiechyd
sy'n llorio pobl
a'u gwneud nhw'n llai na phobl.
Rho nerth i feddygon a nyrsys
i ofalu am y claf ym mhob gwlad.
Amen.

Fyddech chi'n barod i wneud yr hyn a wnaeth y Tad Damien?
Beth fyddai'n eich rhwystro chi rhag mynd i Ynys Molokai?